Un Llais Cymru
One Voice Wales

# Cynghorau Cymuned a Thref
# Canllaw Digidol
## Defnyddio E-bost

Tachwedd 2024

# Cynnwys


Cyflwyniad ....................................................................................................................4
Gweithredu ...................................................................................................................4
E-byst Personol ...........................................................................................................4
Risgiau o Ddefnyddio Cyfeiriadau E-bost Personol: ......................................................4
Y Dull Gorau ar gyfer Gwasanaethau E-bost y Cyngor: ...................................................4
Opsiwn 1: Gwasanaethau E-bost a Ddarperir gan y Cyngor : .......................................5
Opsiwn 2: Gwasanaethau E-bost “Am Ddim” (e.e. Gmail, Outlook, Yahoo ac ati): .........5
Opsiwn 3: Cyfeiriad E-bost Cyffredinol y Cyngor (h.y. un cyfeiriad ar gyfer y cyngor): ...5
Dewis Fformat Priodol ar gyfer Cyfeiriadau E-bost ...........................................................5
Arferion Gorau .................................................................................................................6
Rheolaeth a Threfnu E-byst ..............................................................................................6
Protocolau Cyfathrebu Clir ................................................................................................6
Llofnodion a Thempledi Safonol ........................................................................................6
Hyfforddiant a Diweddariadau Rheolaidd ..........................................................................6
Defnyddio E-bost yn Effeithlon ar gyfer Rheoli Tasgau .....................................................6
Ystyriaethau Technegol a Diogelwch ..................................................................................7
Risgiau Diogelwch ............................................................................................................7
Gofynion Technegol ..........................................................................................................8
Caledwedd (Offer): ..........................................................................................................8
Meddalwedd a Gwasanaethau: .........................................................................................8
Hanes Fersiwn .................................................................................................................8

## Cyflwyniad

Bwriad y ddogfen ganllaw hon yw helpu Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru i ddeall ac ystyried materion sy'n ymwneud â darparu a defnyddio e-bost ar gyfer cynnal busnes y cyngor a rhyngweithio â'r cyhoedd.

Dylid ei ddarllen ar y cyd â chanllawiau cysylltiedig ynghylch Enwau Parth a Gwefannau

Dylai pob Cyngor Cymuned a Thref yng Nghymru fabwysiadu arferion e-bost da. Bydd hyn yn galluogi cynghorau i elwa ar yr effeithlonrwydd a'r cyfleustra sy'n gysylltiedig â chyfathrebu electronig tra'n rheoli risgiau sy'n gysylltiedig ag achosion o dorri diogelwch a phreifatrwydd.

# Gofynion

Nid oes unrhyw ofynion deddfwriaethol neu reoleiddiol penodol sy'n rhoi manylion am sut mae Cynghorau Cymuned a Thref yn defnyddio e-byst – heblaw darparu modd i gysylltu â'r Cyngor ar y wefan. Fodd bynnag, mae yna ystyriaethau allweddol y dylai Cynghorau fod yn ymwybodol ohonynt wrth ddewis eu dull.

# Cydymffurfio

Mae angen i gynghorau gadw cofnodion cywir o gyfathrebiadau a dylid rheoli negeseuon e-bost yn yr un modd â chyfathrebiadau ysgrifenedig eraill. Dylid storio, archifo a gwaredu gohebiaeth e-bost yn unol â pholisi'r Cyngor.

# Gweithredu

## E-byst Personol

Mae llawer o gynghorwyr a rhai staff yn parhau i ddefnyddio cyfrifon e-bost personol (h.y. cyfrifon y maent hefyd yn eu defnyddio i gynnal eu materion personol) ar gyfer busnes y Cyngor. Mae sawl risg yn gysylltiedig â defnyddio cyfeiriadau e-bost personol sy'n gwneud hwn yn ddull annerbyniol. Mae'r risgiau hyn hefyd yn berthnasol i ddefnyddio cyfeiriad e-bost cyflogwr neu gyfeiriad Cyngor arall at ddibenion y Cyngor.

### Risgiau o Ddefnyddio Cyfeiriadau E-bost Personol:

**Gellir eu Dynwared:** Yn aml gall cyfeiriadau e-bost personol gael eu dynwared yn hawdd gan dechnegau syml fel newid un nod yn ogystal â ffugio, lle mae rhywun yn newid e-bost i roi'r argraff ei fod wedi'i anfon gan rywun arall.
**Diogelwch:** Efallai y bydd gan gyfrifon e-bost personol brotocolau diogelwch gwannach o gymharu â'r rhai a gynigir gan ddarparwyr e-bost proffesiynol. Mae hyn yn cynyddu'r risg o dorri data a mynediad heb awdurdod i wybodaeth sensitif y cyngor.
**Parhad:** Pan fydd cynghorydd yn gadael ei swydd, gallai e-byst pwysig y Cyngor gael eu colli pe baent yn cael eu hanfon i gyfrif personol. Gall hyn amharu ar gyfathrebu a rhwystro cyfeirio atynt yn y dyfodol.
**Tryloywder:** Gall mynediad cyhoeddus i geisiadau gwybodaeth y Cyngor fynd yn gymhleth os yw cyfathrebu swyddogol yn wasgaredig ar draws cyfrifon e-bost personol.
**Atebolrwydd:** Gall defnyddio e-bost personol ei gwneud hi'n anodd olrhain cyfathrebu a sicrhau bod cofnodion cywir yn cael eu cadw ar gyfer gweithgareddau'r Cyngor.
**Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth:** Gall cyfathrebiadau sy'n ymwneud â busnes y Cyngor fod yn destun ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth ac mae'n anodd ac yn drafferthus os oes angen i gynghorwyr ddatgelu e-byst personol fel rhan o e.e. cais gwrthrych am wybodaeth yn gofyn am bob cyfeiriad at unigolyn yn e-byst y cyngor.
**Risg i Enw Da:** Gall cael cyfeiriad e-bost personol ysgafn neu ddigrif fod yn iawn i ffrindiau a theuluoedd ond mae'n annhebygol o adlewyrchu'n dda ar y Cyngor.

### Y Ffordd Orau o Weithredu E-bost y Cyngor:

Bydd dewis y dull gorau ar gyfer gwasanaethau e-bost y Cyngor yn golygu rhywfaint o gyfaddawdu rhwng ymarferoldeb, gorbenion gweinyddol a chostau.

Yr un yw'r dulliau ar gyfer gwasanaethau i staff a Chynghorwyr ond rhaid rhoi blaenoriaeth i ddarparu gwasanaeth i staff.

### Opsiwn 1: Gwasanaethau E-bost a Ddarperir gan y Cyngor :

Gall y cyngor brynu gwasanaeth e-bost i staff (ac i gynghorwyr). Gall hyn fod yn rhan o becyn "cydweithio" ehangach (fel Microsoft 365 neu Google Workspace), neu gall fod yn gyfeiriad e-bost a blwch post syml. Bydd cost am hyn a fydd yn dibynnu ar y gwasanaeth a brynir. Bydd rhai darparwyr gwefannau yn cynnig gwasanaethau e-bost sylfaenol fel rhywbeth ychwanegol rhad ac am ddim neu gost isel at eu gwasanaethau cynnal gwefan Dylid ystyried y lefel hon yn gryf ar gyfer unrhyw staff swyddfa fel clercod

**Manteision:** Yn darparu cyfeiriadau e-bost unigol i staff a chynghorwyr, yn meithrin proffesiynoldeb, yn gwella llif cyfathrebu.
**Anfanteision:** Angen sefydlu cychwynnol a gwaith cynnal a chadw parhaus, gall olygu cost yn dibynnu ar y darparwr a ddewisir, angen i staff a chynghorwyr fonitro a rheoli eu negeseuon e-bost.

### Opsiwn 2: Gwasanaethau E-bost "Am Ddim" (e.e. Gmail, Outlook, Yahoo ac ati):

Gall cynghorwyr greu gwasanaeth e-bost rhad ac am ddim i'w ddefnyddio (dan nawdd hysbysebion) y gellir ei gadw ar wahân i unrhyw e-bost neu gyfrifon ar-lein eraill y maent yn eu defnyddio ar gyfer busnes personol.

**Manteision:** Yn aml rhyngwyneb cyfarwydd am ddim neu gost isel i lawer o ddefnyddwyr, fel arfer wedi'i fwndelu â nodweddion eraill (calendrau, storio ffeiliau). Hwyluso ymateb i unrhyw gais Rhyddid Gwybodaeth, cais gwrthrych am wybodaeth neu gais arall am wybodaeth gan y cyngor gan nad oes angen golygu gwybodaeth bersonol cynghorydd nad yw'n wybodaeth cyngor.
**Anfanteision:** Bydd angen rhoi polisi penodol ar waith i ddiffinio sut mae'r cyngor yn rheoli'r cyfrifon e-bost hyn e.e. os bydd cynghorydd yn rhoi'r gorau iddi, beth sy'n digwydd i'w gyfrif e-bost? Bydd cyfrif rhad ac am ddim yn cynnwys hysbysebion a allai dynnu sylw oddi wrth fusnes y cyngor. Mae'n bosibl na fydd cyfrifon rhad ac am ddim yn cynnig preifatrwydd rhag casglu data gan y darparwyr i'w rannu â hysbysebwyr a chyrff eraill.

### Opsiwn 3: Cyfeiriad E-bost Cyngor Cyffredinol (h.y. un cyfeiriad ar gyfer y cyngor):

Gall y clerc gael cyfrif e-bost ar gyfer y cyngor y gellir ei hysbysebu ar y wefan ac mewn mannau eraill. Nid yw cynghorwyr yn defnyddio e-bost ar gyfer busnes y cyngor o gwbl.

**Manteision:** Hawdd i'w sefydlu, yn hyrwyddo tryloywder, yn sicrhau parhad cyfathrebu.
**Anfanteision:** Angen i rywun (y clerc yn aml) fod yn gyfrifol am fonitro'r mewnflwch, ni fydd yn caniatáu i gynghorwyr ddefnyddio e-bost.

## Dewis Fformat Priodol ar gyfer Cyfeiriadau E-bost

Mae Cynghorau Cymuned a Thref yn gyrff etholedig sy'n cynrychioli eu cymunedau yn yr un modd ag Awdurdodau Unedol. Dylid mabwysiadu dull tebyg i un yr Awdurdodau Unedol ar gyfer e-byst i staff a chynghorwyr.

Rhai opsiynau fyddai e.e.

councillor.maryjones@community-cc.gov.wales

clr.john.davies@cc.gov.wales

clerk@community-cc.gov.wales

david.williams@community-cc.gov.wales (lle mae’r clerc yn defnyddio ei enw yn ei e-bost)

## Arferion Gorau

Mae angen i arferion gweithredol gorau ar gyfer defnyddio e-bost gan gynghorau ganolbwyntio ar brosesau symlach a gweithdrefnau clir i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Dyma rai arferion allweddol:

### Rheoli a Threfnu E-byst

Sefydlu system safonol ar gyfer trefnu e-byst. Mae hyn yn cynnwys creu ffolderi a labeli ar gyfer gwahanol fathau o ohebiaeth, gosod rheolau ar gyfer didoli awtomatig, ac archifo hen e-byst yn rheolaidd. Mae mewnflwch trefnus yn lleihau annibendod ac yn galluogi staff i ddod o hyd i wybodaeth bwysig yn gyflym, gan wella cynhyrchiant.

### Protocolau Cyfathrebu Clir

Diffinio protocolau clir ar gyfer cyfathrebu trwy e-bost, gan gynnwys canllawiau ar amseroedd ymateb, y defnydd o linellau pwnc, a'r defnydd priodol o feysydd 'To', 'Cc', a 'Bcc'. Mae hyn yn sicrhau bod e-byst yn uniongyrchol, yn berthnasol, ac yn cyrraedd y derbynwyr bwriadedig heb ddyblygu diangen. Dim ond clerc neu staff arall rhan amser sydd gan lawer o gynghorau cymuned a thref. Mae'n syniad da creu ateb awtomataidd i e-byst gan osod disgwyliad ar gyfer amser ar gyfer ymateb e.e. os yw e-byst yn cael eu hadolygu'n wythnosol yn unig.

### Llofnodion a Thempledi Safonol:

Defnyddio llofnodion ebost a thempledi safonol. Mae hyn nid yn unig yn cyflwyno delwedd broffesiynol ond hefyd yn arbed amser ac yn sicrhau cysondeb mewn cyfathrebu. Gellir defnyddio templedi ar gyfer negeseuon cyffredin megis gwysion cyfarfodydd, cyhoeddi dogfennaeth reolaidd megis agendâu a chofnodion, a chyhoeddiadau.

### Hyfforddiant a Diweddariadau Rheolaidd

Cynnig sesiynau hyfforddi rheolaidd i staff ar reoli e-bost a strategaethau cyfathrebu effeithiol. Mae bod yn ymwybodol o nodweddion diweddaraf llwyfannau e-bost ac arferion gorau yn sicrhau y gall staff ddefnyddio'r offer sydd ar gael iddynt yn effeithiol.

### Defnyddio E-bost yn Effeithlon ar gyfer Rheoli Tasgau

Ystyriwch ddefnyddio e-bost ar y cyd ag offer rheoli tasgau. Er enghraifft, gall defnyddio e-bost i aseinio tasgau a gosod nodiadau atgoffa dilynol helpu i sicrhau bod tasgau'n cael eu holrhain a'u cwblhau'n effeithlon.

## Ystyriaethau Technegol a Diogelwch

### Risgiau Diogelwch

*Sbam* : Negeseuon e-bost digymell sy'n gallu creu annibendod mewn mewnflychau a lleihau cynhyrchiant. Mae sbam yn aml yn cynnwys ymdrechion gwe-rwydo, sef negeseuon twyllodrus sydd wedi'u cynllunio i ddwyn gwybodaeth sensitif. Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr e-bost bellach yn cynnig hidlo sbam a fydd yn dileu negeseuon sbam amlwg. Dylai staff a chynghorwyr fod yn ymwybodol o sbam a thrin pob e-bost gan anfonwyr anghyfarwydd ag amheuaeth

*Malware:* Meddalwedd maleisus y gellir ei gyflwyno trwy atodiadau e-bost neu ddolenni. Gall meddalwedd faleisus beryglu systemau, dwyn data, ac amharu ar weithrediadau. Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr e-bost bellach yn cynnig amddiffyniad malware, ond nid yw hyn byth yn gyflawn. Ni ddylai staff a chynghorwyr glicio ar ddolenni na lawrlwytho atodiadau gan anfonwyr anghyfarwydd.

*Colli Data* : Gall partïon anawdurdodedig ryng-gipio neu gyrchu negeseuon e-bost, gan arwain at achosion posibl o dorri data. Mae'r risg hon yn uwch os yw e-byst yn cynnwys gwybodaeth sensitif neu gyfrinachol. Gall e-byst wedi'u hamgryptio gynnig rhywfaint o amddiffyniad ond mae costau a chymhlethdodau yn gysylltiedig â'i ddefnyddio. Nid yw Cynghorau Cymuned a Thref fel arfer yn delio â llawer iawn o wybodaeth sensitif, ac mae'n fwy priodol, lle mae angen anfon gwybodaeth o'r fath, defnyddio dull heblaw e-bost.

*Gwe-rwydo (Phishing):* Math o ymosodiad seiber lle mae ymosodwyr yn dynwared endidau cyfreithlon i dwyllo derbynwyr i ddatgelu gwybodaeth bersonol, fel cyfrineiriau neu fanylion ariannol. Dylai staff a chynghorwyr fod yn ymwybodol o'r sbam peryglus hwn a bod yn ofalus iawn cyn nodi unrhyw wybodaeth bersonol neu sensitif y gofynnir amdani mewn neges e-bost.

*Ransomware* : Math o ddrwgwedd sy'n amgryptio data ac yn mynnu taliad am ei ryddhau. Mae ymosodiadau Ransomware yn aml yn dechrau gydag e-bost maleisus. Mae nifer o sefydliadau mawr yn y sector cyhoeddus a phreifat wedi dioddef ymosodiadau ransomware soffistigedig. Mae'n debyg nad yw cynghorau cymuned a thref yn dargedau allweddol ar gyfer y math hwn o ymosodiad oherwydd eu bod yn llai a bod ganddynt lai o adnoddau ariannol, ond dylid ystyried y risg. Dylid mynd â chopïau wrth gefn "all-lein" rheolaidd o ddata e.e. i yriant caled allanol fel bod copi arall ar gael os bydd bygythiad o ransomware.

## Gofynion Technegol

Caledwedd (Offer): Mae angen i liniaduron a chyfrifiaduron bwrdd gwaith a ddefnyddir gan weithwyr staff swyddfa fod yn addas i reoli cymwysiadau e-bost. Fodd bynnag, nid yw'r rhain yn gymwysiadau sy'n gofyn am lawer iawn o bŵer cyfrifiadurol felly dylai unrhyw ddyfais gymharol ddiweddar fodloni'r gofyniad hwn.

Meddalwedd a Gwasanaethau: Dylai polisi fod yn ei le bod pob dyfais gyfrifiadurol yn cynnwys systemau gweithredu cyfoes a bod diweddariadau rheolaidd yn cael eu cymhwyso i reoli risgiau o faleiswedd a bygythiadau ar-lein eraill.

# Hanes Fersiwn

| | Dyddiad | Cyhoeddwr | Rheswm | Dyddiad Adolygu |
|---|---|---|---|---|
| V1 | 21/11/24 | Justin Horrell | Fersiwn Cychwynnol | 21/11/25 |

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**